

Refferendwm yr UE: Diweddariad i ymgyrchwyr Rhif 2

Hydref 2015

Ymunwch â'n rhestr ddiweddaru

Gallwch gofrestru i dderbyn y
diweddariadau hyn ar ein
[gwefan](#) neu drwy ffonio 0333
103 1928

Mae Llywodraeth y DU
wedi cyflwyno deddfwriaeth
i gynnal refferendwm ar
aelodaeth y DU o'r UE
erbyn diwedd 2017. Nid yw
union ddyddiad y
refferendwm yn hysbys eto.

Mae'r Bil, sy'n nodi sut y
caiff y refferendwm ei
gynnal a'r rheolau y mae'n
rhaid i ymgyrchwyr eu dilyn,
wrthi'n cael ei ystyried gan
Senedd y DU.

Ni sy'n rheoleiddio arian a
gwariant gwleidyddol. Ein

nod yw sicrhau uniondeb a
thryloywder o ran cyllid a
gwariant ar ymgyrchu i
bleidleiswyr.

Rydym yn cofrestru
ymgyrchwyr ac yn
rheoleiddio eu gwariant a'u
rhoddion mewn refferenda.

Unwaith y daw'r Bil yn
gyfraith byddwn yn
cyhoeddi cyfres lawn o
ganllawiau i ymgyrchwyr.

Tan hynny, byddwn yn
cyhoeddi cyfres o
ddiweddariadau ar eich
cyfer.

Ynglŷn â'r diweddariad hwn

Mae'r diweddariad hwn yn seiliedig ar Fil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd ('y Bil'). Mae Senedd y DU wedi cytuno ar egwyddorion y Bil ac mae wrthi'n ystyried diwygiadau, felly gall rhywfaint o'r wybodaeth a roddir yn y diweddariad hwn newid. Byddwn yn tynnu sylw at newidiadau i'r Bil mewn diweddariadau pellach.

Mae'r ail ddiweddariad hwn yn ymdrin â'r canlynol:

- statws y Bil
- cwestiwn y refferendwm
- cofrestru
- gwariant ar y refferendwm
- ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth

Statws y Bil

Cafodd Bil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd ei gyflwyno i'r Senedd ar 28 Mai 2015. Cafwyd yr Ail Ddarlleniad ar 9 Mehefin 2015 ac yn dilyn adolygiad pwyllgor ac adroddiad, cytunwyd ar yr amserlen ddeddfu ar 7 Medi 2015.

Cafwyd y Darlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Medi 2015. Dyma ddechrau hynt y Bil drwy Dŷ'r Arglwyddi gyda'r Ail Ddarlleniad wedi'i drefnu ar gyfer 13 Hydref 2015.

Gallwch weld y Bil presennol [yma](#).

Mae barn y Comisiwn Etholiadol ar y Bil cyn Ail Ddarlleniad Tŷ'r Arglwyddi ar gael [yma](#), ynghyd â'n briffiau blaenorol o gamau blaenorol trywydd y Bil drwy'r Senedd.

Cwestiwn y refferendwm

Ar 1 Medi 2015, rhoesom ein cyngor statudol i'r Senedd ar gwestiwn arfaethedig y Bil.

Yn dilyn ein proses asesu, gwnaethom argymhell y dylai'r cwestiwn gael ei newid i:

'A ddylai'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu adael yr Undeb Ewropeaidd?'

Yr ymatebion ar y papur pleidleisio fyddai **'Aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd'** neu **'Gadael yr Undeb Ewropeaidd'**.

Yn dilyn ein hargymhelliad, mae'r llywodraeth wedi cyflwyno diwygiad i'r Bil i wneud y newid. Mae'r adroddiad asesu ar gael [yma](#).

Dyddiad y refferendwm

Bwriedir i'r refferendwm ar aelodaeth Y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd gael ei gynnal erbyn diwedd 2017 ond nid oes dyddiad wedi'i gadarnhau eto. Nodir y dyddiad mewn is-ddeddfwriaeth ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol. Yn ein sesiynau briffio yn Ail Ddarlleniad Tŷ'r Cyffredin a dadl y Cam Pwyllgor gwnaethom ddweud na ddylai'r refferendwm gael ei gynnal ar yr un diwrnod â'r etholiadau a gynhelir ar 5 Mai 2016 nac unrhyw etholiadau eraill a drefnwyd. Mae'n bwysig bod pleidleiswyr ac ymgyrchwyr yn cael y cyfle i ymgysylltu'n llawn â'r materion sy'n berthnasol yn yr etholiadau hyn. Mae hefyd yn bwysig bod unrhyw ddadl am aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn cael ei chynnal ar adeg sy'n galluogi pleidleiswyr ac ymgyrchwyr i gyfranogi'n llawn, heb

fod negeseuon croes a gweithgarwch sy'n ymwneud ag etholiadau eraill a drefnwyd yn cymhlethu'r sefyllfa. Diwygiwyd y Bil fel na all y refferendwm gael ei gynnal ar 5 Mai 2016. Mae'r dyddiad hwn ar gyfer yr etholiadau canlynol:

- Cynulliad Gogledd Iwerddon
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Senedd yr Alban
- Llywodraeth leol yn Lloegr
- Awdurdod Llundain Fwyaf
- Etholiadau ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr

Bod yn ymgyrchydd cofrestredig

Gall unrhyw un wario hyd at £10,000 ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm. Os byddwch am wario mwy na £10,000 rhaid i chi gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol. Gallwch gofrestru gyda ni cyn gynted ag y bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol.

Fel ymgyrchydd cofrestredig rhaid i chi ddilyn y rheolau ar wariant, rhoddion ac adroddiadau. Os byddwch yn cofrestru fel ymgyrchydd cewch y buddiannau canlynol:

- terfyn gwario dros £10,000
- cael gweld y gofrestr etholiadol er mwyn helpu eich ymgyrch
- cael bod yn bresennol pan gyfrifir y pleidleisiau

Rhaid i chi gofrestru ar wahân fel ymgyrchydd refferendwm hyd yn oed os ydych eisoes wedi cofrestru â ni fel

plaid wleidyddol neu ymgyrchydd nad yw'n blaid.

Beth yw gwariant ar y refferendwm?

Mae gwariant ar y refferendwm yn cyfeirio at yr hyn rydych yn ei wario ar ymgyrchu er mwyn hyrwyddo neu sicrhau canlyniad penodol yn y refferendwm.

Mae gwariant ar y refferendwm yn cynnwys yr arian rydych yn ei wario ar:

- ddarllodiadau ymgyrchu (os ydych yn sefydliad dynodedig)
- hysbysebion o unrhyw fath. Er enghraifft, baneri stryd, gwefannau neu fideos YouTube
- deunydd a anfonwyd at bleidleiswyr yn ddigymell. Er enghraifft, llythyrau neu daflenni a anfonwch nad ydynt mewn ymateb i ymholiadau penodol
- dogfennau 'cyhoeddus' eraill ar y refferendwm, megis cyflwyno dadleuon eich ymgyrch
- ymchwil i'r farchnad neu ddulliau eraill o ganfod sut mae pobl yn bwriadu pleidleisio
- cynadleddau i'r wasg neu ddelio â'r cyfryngau mewn ffyrdd eraill
- raliau a digwyddiadau, gan gynnwys cost presenoldeb pobl, ac unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau a ddarperir
- cludiant mewn cysylltiad â rhoi cyhoeddusrwydd i'ch ymgyrch

Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth

Rydym bob amser yn hapus i roi cyngor i ddarpar ymgyrchwyr ar sut i gydymffurfio â'r rheolau.

Cysylltwch â ni ar 0333 103 1928

pef@electoralcommission.org.uk

Neu defnyddiwch y cyfeiriadau e-bost isod:

- Lloegr:
pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban:
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru:
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Gogledd Iwerddon:
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

I gael gwybodaeth arall am y refferendwm

Ar ein gwefan,

www.comisiwnetholiadol.org.uk,

gallwch gael:

- rhagor o wybodaeth am ein rôl mewn refferenda
- ein hegwyddorion allweddol ar gyfer cynnal refferenda
- ein dull o asesu cwestiynau'r refferendwm
- ein canfyddiadau ar gwestiwn y refferendwm
- briffiadau ar y Bil sy'n egluro ein safbwynt ar ddarpariaethau lle bo'n briodol
- [canllawiau](#) ar rolau allweddol mewn refferenda